



Pontcysyllte

Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Part of a UNESCO World Heritage Site
Area of Outstanding Natural Beauty

i see...



**Siarter
Amgylcheddol
Environmental
Charter**



**Snowdonia-
Active
Bywyd**

Camlas Llangollen

Cysoni Cadwraeth a Hamdden

Siarter Amgylcheddol Environmental Charter



Snowdonia-
Active
Eryri-
Bywiol

Mae Llofnodwyr Siarter yn ceisio:

- Osgoi difrod i safleoedd a lleihau aflonyddu bywyd gwyllt a'r amgylchedd
- Sicrhau bod pob arweinydd grŵp yn deall rhagor am gynefinoedd, rhywogaethau, daeareg ac amgylcheddau Gogledd Cymru a sut i osgoi aflonyddwch a difrod
- Annog eraill i barchu bywyd gwyllt, tirweddau a bywyd cymunedol yng Ngogledd Cymru
- Gweithio gyda pherchnogion tir, cyrff statudol a phartïon eraill o ddiddordeb i reoli grwpiau yn y ffordd orau ar safleoedd presennol ac ystyried y canlyniadau cyn datblygu safleoedd newydd
- Parchu cynlluniau rheoli sy'n seiliedig ar gadwraeth sydd wedi eu cytuno a'u cyhoeddi
- Bod yn ystyriol tuag at berchnogion tir, preswylwyr a defnyddwyr eraill wrth barcio a gweithredu
- Annog grwpiau, cydweithwyr a myfyrwyr i barchu, diogelu a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal – cynefinoedd, rhywogaethau, daeareg, archaeoleg a strwythurau a wnaed gan ddyn
- I drafod unrhyw adeiladwaith parhaol angenrheidiol gyda'r cyrff statudol a phartïon perthnasol
- Gadael safle'n lanach na phan gyrhaeddoch yno a mynd â'ch sbwriel adref efo chi



twitter
@nweocg



chartergroup@snowdonia-active.com



www.facebook.com/nweocg

iSee Camlesi Cymru

Camlas Llangollen

Mae gweithgareddau awyr agored yn cynnig cyfrwng delfrydol i addysgu grwpiau am eu hamgylchoedd. Fe wnaiff y canllaw hwn helpu hyfforddwy'r awyr agored i ennyn diddordeb eu cleientiaid â threftadaeth ddiwydiannol, ddiwylliannol a naturiol unigryw camlesi Cymru.

Adeiladwyd y camlesi yng Nghymru i gludo nwyddau yn effeithlon ledled y wlad, ac fe wnaethant gyfraniad arwyddocaol at y chwyldro diwydiannol. Fe wnaeth agor y camlesi olygu fod busnesau yn ffynnu mewn cymunedau gwledig, gan ddod ag elw a swyddi. Fodd bynnag, fe wnaeth agor y rheilffyrdd 'cyflymach' arwain at ddirywiad y camlesi. Mae gwaith hanfodol yr **Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd** wedi adfer llawer o gamlesi fel hafan ar gyfer hanes, bywyd gwyllt a hamdden.

Yn wreiddiol, tynnid cychod culion gan geffylau, a dyna pam gallwn ni fwynhau cerdded neu feicio ar y llwybr halio wrth ochr y gamlas heddiw.

Wedi'i gynllunio i'w gadw mewn pced siaced hynofedd neu yn eich pced.

Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

y waun i
dyfrbont
pontcysyllte
.....

dyfrbont
pontcysyllte
.....

dyfrbont
pontcysyllte i
lantysilio
.....

yn y
dŵr

ar y
glannau


yn y
clawdd

rhwyfo'n
gywir
.....

adnoddau
eraill
.....



Gellir gweld **odynau calch** ar hyd y gamlas, a chài'r mwyaf o'r rhain, yn **Froncysyllte**, ei ddefnyddio i droi calchfaen yn galch ar gyfer adeiladu ac amaethyddiaeth.



Byddwch yn gweld rhigolau yn y gwaith carreg ar hyd glannau'r gamlas. Mae'r rhain ar gyfer **planciau stopio** a fewnosodir i gronni rhannau o'r gamlas i wneud gwaith cynnal a chadw.

Adeiladwyd y gamlas yn bennaf i fwydo dŵr o Afon Dyfrdwy i **Gamlas Undeb Swydd Amwythig**, a wasanaethai ardaloedd diwydiannol canolbarth a gogledd-orllewin Lloegr.



Twnnel y Waun oedd un o'r twneli camlas cyntaf i'w adeiladu oedd â llwybr halio. Mae'r rheiliau yn crymu i mewn i'r ddaear wrth y fynedfa i osgoi bachu yn y rhaff halio.



Mae **Pont Gledrid** yn Lloegr ac mae'n dynodi mynedfa Safle Treftadaeth y Byd.




Wrth i chi groesi **Traphont Ddŵr y Waun**, byddwch yn croesi rhwng Lloegr a Cymru.

DYFIRBONT PORTOYSYLLTE

AGORWYD YN 1805

15 miliwn
galwyn



307

medr
o hyd

38.4 medr o uchder

- Y draphont ddŵr uchaf a hiraf ym Mhrydain.
- Yn 2009, daeth yn un o Safleoedd Treftadaeth y Byd UNESCO, sy'n golygu ei bod yn bwysig o safbwynt rhyngwladol.
- Defnyddiwyd tywodfaen o Chwarel Cefn Mawr gerllaw i adeiladu 18 piler y draphont ddŵr.
- Cafodd yr asennod a'r platiau eu bwrw yn ffowndri haearn bwrpasol William Hazledine ym Mhlas Kynaston.
- Bob 10 mlynedd, tynnir y plwg i wagio dŵr y draphont ddŵr er mwyn ei chynnal a'i chadw. Bydd angen dwyawr i'w gwagio.
- Costiodd y draphont ddŵr £47,000 i'w hadeiladu dros 10 mlynedd; amcangyfrifir y byddai'n costio £400 miliwn i'w hadeiladu heddiw.
- Gwnaed y gwaith gan Thomas Telford - yr un peiriannydd a gynlluniodd Bont y Borth i Ynys Môn - a chafodd ei arolygu gan William Jessop, oedd yn beiriannydd camlesi mwy profiadol.

19Bwa



Ym **Mhont Pentrefelin**, mae llecyn culach yn dangos ble arferai pont godi groesi i felin llechi Pentrefelin ar un adeg. Yno, byddai llechfaen o'r chwareli i'r gogledd yn cael eu torri'n slabiau at ddefnydd pensaernïol.

Bydd y gored siâp cilgant ger **Rhaedr y Bedol** yn tynnu 12 miliwn galwyn o ddŵr bob dydd o Afon Dyfrdwy ac mae'n helpu i gyflenwi dŵr yfed ar gyfer Swydd Caer.



LLANTYSILIO

A542

Abaty
Valle Crucis



Pont Gadwyn

Gorsaf
Berwyn

Mae'r **Bont Grog** wedi'i hailadeiladu dair gwaith oherwydd llifogydd, ond y cadwyni sydd arni yw'r cadwyni crog hynaf sy'n cael eu defnyddio.

Miles


Corwen



Y tu hwnt i **Bont Bryn-Howel**, saif tŷ cychod yng ngardd y plasty gerllaw, bellach gwesty Bryn-Howel. Mae hyn yn dangos fod cychod pleser wedi dod yn boblogaidd o'r 19eg ganrif.



Fe wnaeth **twll weindio Llangollen** alluogi cychod â pheiriant i droi rownd oherwydd ychydig iawn ohonynt fyddai'n mynd i rannau mwy bas y gamlas ymhellach draw.



iâr fach y dŵr

Yn y dŵr

Er y cawsant eu hadeiladu ar gyfer llwythi diwydiannol ac amaethyddol, bellach, sianeli ein dyfrffyrdd yw ein cynefin bywyd gwyllt amlycaf. Cafodd camlesi ac afonydd mordwyol eu cytrefu gan blanhigion ac anifeiliaid yn fuan ar ôl eu hadeiladu. Heddiw, 200 mlynedd yn ddiweddarach, mae llawer wedi'u dynodi yn safleoedd natur pwysig ar y lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Mae eu llifoedd araf a'u lefelau dŵr a reolir yn cynnig cynefin unigryw sydd wedi dod yn adnodd hanfodol i fywyd gwyllt.



► Mae gan y **crëyr glas** led adenydd sy'n mesur 6 troedfedd. Yn wahanol i gotieir hyderus, bydd **ieir bach y dŵr** yn cuddio yn y cyrs, a phan fyddant yn ofnus, byddant yn rhedeg i lochesu. Y cerpyn mwyaf a ddaliwyd erioed oedd **cerpyn cyffredin** yn pwyso 94 pwys yn 2010.



Yr Y Cŵr



◀ Mae gan **frithyll** iaith corfforol! Wrth gystadlu, bydd pysgod ymostyngol yn cau eu ceg, yn crebachu eu hesgyll, yn mynd yn llwydaidd ac yn disgyn i lawr tuag at wely'r gamlas.

► Mae gan draed **cotieir** fflapiau llabedog o groen ar y bodiau, a ddefnyddir yn lle gweoedd wrth nofio. Byddant yn esgyn i'r awyr trwy redeg ar hyd y dŵr.





► Nid oes arogl ar faw **llygod y dŵr**, ond yn lle hynny, byddant yn dynodi eu tiriogaeth trwy rwbio eu traed ôl ar y chwarennau arogl ar eu brest ac yna'n sathru eu baw...y canlyniad yw 'geudai sathredig'.




► Bydd **lilïau'r dŵr melyn** yn tyfu hyd at 40cm ar draws, a dywedir fod eu blodau melyn yn arogleuo fel gwaelodion gwin.

◀ Bydd **clêr Mai** yn hedfan yn agos at wyneb y dŵr, sy'n golygu fod brithyll brown sy'n neidio allan o'r dŵr i fwydo arnynt yn gallu eu dal yn hawdd.




◀ Gall gaeafau caled arwain at hyd at 90% o **las y dorlan** Prydain yn marw oherwydd diffyg bwyd.





llafrwyn



arY glannau

Mae glannau dyfrffyrdd, ble mae tir a dŵr yn cwrdd, yn neilltuol o werthfawr ar gyfer bioamrywiaeth. Yn dibynnu ar y strwythur a gorchudd llystyfiant, gall glannau dyfrffyrdd gynnig cynefin i amrywiaeth helaeth o fywyd gwyllt. Gall ymylon llwybrau halio sy'n rhedeg ar hyd llawer o gamlesi ymestyn am filltiroedd lawer ar hyd dyfrffyrdd ac maent yn cynnal fflora a ffawna cyfoethog iawn. Mae eu gwerth ar gyfer bywyd gwyllt wedi datblygu ar adeg pan mae dolydd ac ymylon coedydd yn y cefn gwlad ehangach wedi colli llawer o rywogaethau. Mae ymylon llwybrau halio sydd â chyfoeth o flodau wedi datblygu yn ystod y 50 mlynedd diwethaf wrth i halio cychod leihau.

► Fe wnaeth cychwyr blannu coed **afalau surion bach** i gael ffrwythau wrth iddynt deithio o amgylch y wlad.

Mae gan **helyg ceimion** hollt mawr yn eu boncyff, a gall hynny fod yn hafan i ystlumod.

Mae **gwern** yn gallu gwrthsefyll pydru dan y dŵr; mae'r rhan fwyaf o Fenis wedi'i hadeiladu ar bileri gwern.



ar Y Glannau



◀ Mae **ystlumod** ymhlith defnyddwyr mwyaf adnabyddus twneli a phontydd ar hyd y gamlas, ble byddant yn clwydo ac yn gaeafgysgu.

► Mae **mursennod** yn bodoli ers oddeutu 300 miliwn o flynyddoedd. Un o'r prif wahaniaethau rhwng mursen a gwas y neidr yw bod mursennod yn gorffwys â'u hadenydd ar gau a gweision y neidr yn gorffwys â'u hadenydd ar agor.





► Efallai ma **melyn y gors** yw un o'n planhigion mwyaf hynafol. Credir ei fod yn tyfu yma cyn yr Oes lâ olaf.



► Yn wahanol i famaliaid eraill sy'n cadw'u hunain yn glae ar arbed egni wrth blymio i chwilio am ysglyfaeth, bydd **chwistlod** yn cynhesu eu hunain cyn mynd i mewn i ddŵr oer.

◄ **Telwr y gwair** Bydd sawl rhywogaeth o'r telwr yn mudo o Affrica i fridio yn y DU yn yr haf. Byddant yn bwyta pryfetach y gamlas, megis clêr Mai a mursennod.



◄ Dyma'r gwahaniaeth: Mae gan frogaod groen llyfn, llaith, ac mae gan **lyffantod** groen dafadennog.



A close-up photograph of a vibrant green leaf with distinct serrated edges and prominent, parallel veins. The leaf is slightly curled, and its surface has a fine, textured appearance. In the background, other leaves and branches are visible but blurred, creating a sense of depth. The lighting is bright, highlighting the natural colors and textures of the foliage.

cyll



Ym Y clawdd

Câi cloddiau camlesi eu plannu'n aml gan y cwmnïau camlesi gwreiddiol. Gwelir cloddiau ar hyd y rhan fwyaf o gamlesi, ac maent yn cynnig gorchudd, lloches a bwyd ar gyfer llawer o anifeiliaid. Gallant hefyd weithredu fel coridorau rhwng cynefinoedd ynysig, gan ddarparu lloches i anifeiliaid wrth iddynt symud rhwng safleoedd. Bydd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yn defnyddio coed **cyll** i amddiffyn a chreu glannau llaith dyfrffyrdd.

► Mae dwy ran o dair o gnydau'r byd yn dibynnu ar anifeiliaid i drosglwyddo pail rhwng rhannau gwrywaidd a benywaidd blodau, ac o blith yr holl anifeiliaid, **gwenyn** yw'r rhai pwysicaf yn y rhan fwyaf o ecosystemau.



Yn Y Clawdd



◀ Credid ar un adeg y byddech chi'n gweld y diafol pe baech chi'n llosgi coed **ysgaw**, ond pe baech chi'n plannu coed ysgaw ger eich tŷ, byddai'n cadw'r diafol draw.

► Cafodd planhigyn y **rhosyn gwyllt** ei enwi yn 'dog rose' yn Saesneg oherwydd credid fod y gwreiddiau yn ddull effeithiol o gael gwellhad yn sgil brathiad gan gi gwallgof.





◀ Câl **moch daear** eu bwyta ym Mhrydain yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a gallant redeg ar gyflymder o bron iawn 20mya!

► Bydd **llwynogod** yn defnyddio 28 math gwahanol o gri i gyfathrebu â'i gilydd.



◀ Mae'n anodd canfod **pathewod** – byddant yn deffro wedi iddi dywyllu ac yn chwilota am flodau, ffrwythau, cnau a phryfed.



► Mae 4,000 o rywogaethau chwilod yn y DU... ac mae 46 ohonynt yn rhywogaethau'r **fuwch goch gota**.





Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site



**Brynau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Chwydian Range
and Dee Valley

Brynau a Dyffrynau Naturall Cenedlaethol
Area of Outstanding Natural Beauty

Rhwyfo'n gywir

ar hyd 11 milltir o dreftadaeth odidog

Mae camlas Llangollen yn lle gwyh i ddechreuwy, grwpiau a theuluoedd neu unrhyw un sy'n chwilio am fynediad hawdd a hwylus, amodau dibynadwy a llond gwlad o bethau i'w gweld.

I'r rhai mwy profiadol yn eich plith, mae afon Dyfrdwy yn cynnig ffordd tipyn mwy anturus o fwynhau byd natur.

Mae croeso i chi rannu'r Safle Treftadaeth y Byd hwn, ond cofiwch am ddefnyddwyr eraill hefyd. Rydyn ni am i bawb fwynhau'r ardal. I wybod am rwyfo ar hyd ein dyfrffyrdd, ewch I www.canalrivertrust.org.uk



Oes angen i mi brynu trwydded ar gyfer dyfrffyrdd Glandw'r Cymru?

Oes, oni bai'ch bod chi'n aelod cyfredol o Canw Cymru neu British Canoeing sy'n cael defnyddio'n dyfrffyrdd am ddim – ewch I www.britishcanoeing.org.uk neu www.canoewales.com.

Gallwch brynu trwydded tymor byr o www.canalrivertrust.org.uk hefyd.

Ystyriol o eraill

- Parciwch yn ddigon pell o'r llwybr tynnu a heb achosi rhwys
- Cadwch at ganol y ddyfrffordd gan deithio ar gyflymder rheolaidd
- Os ydych chi'n teithio mewn criw, cadwch yn agos at eich gilydd a phasio pysgotwyr gyda'ch gilydd

Ystyriol o bysgotwyr

- Cofiwch gydweithio â physgotwyr er mwyn osgoi llynynnau, gwialenni a heidiau
- Cadwch at ganol y ddyfrffordd gan deithio ar gyflymder rheolaidd
- Os ydych chi'n teithio mewn criw, cadwch yn agos at eich gilydd a phasio pysgotwyr gyda'ch gilydd



Mwynhewch y gamlas – pwyll piau hi

- Cofiwch ddweud wrth eraill i ble'r ydych chi'n mynd, a phryd fyddwch chi nôl
- Gofalwch fod y siwrnai o fewn eich gall
- Peidiwch â rhwyfo ar eich pen eich hun
- Dylai pawb wisgo siaced achub neu gymorth hynofedd a bod â thortsh dal dŵr a chwiban yn sownd iddyn nhw
- Gwnewch yn siw'r fod eich offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn barod ar gyfer y dŵr. Gofalwch fod eich cwch yn ddigon ysgafn i gadw uwchben y dŵr pe bai'n troi drosodd
- Cofiwch orchuddio unrhyw friwiau neu gytiau â phlastr dal dŵr, gwisgwch esgidiau addas a cheisiwch osgoi llyncu'r dŵr. Golchwch eich dwylo cyn bwyta

Gwarchod yr amgylchedd naturiol

- Cofiwch asesu'r bywyd gwyllt o'ch cwmpas yn gyson. Os gwelwch chi unrhyw arwyddion o aflonyddu, ewch oddi yna'n ddistaw
- Mae glannau afonydd a chamlesi yn gynefin pwysig i fywyd gwyllt. Ceisiwch osgoi difrodi'r glannau a'u tyfiant trwy osgoi lansio neu lusgo cychod i'r gamlas
- Ewch â'ch sbwriel adre gyda chi

PAID LLEDAENU



Wyt ti'n lleadaenu rhywogaethau niweidiol ar dy gyfarpar chwaraeon dŵr a dy ddillad heb sylweddoli hynny?

Fe all rhywogaethau niweidiol effeithio ar bysgod a bywyd gwyllt, rhwystro llongau a chychod a thagu eu propelors, a gall fod yn ddud i'w reoli. Gelli di helpu i warchod dy hoff chwaraeon dŵr drwy ddilyn tri cham syml wrth adael y dŵr.



Drycha am organebau byw yn dy gyfarpar a dy ddillad – yn enwedig mewn mannau sy'n damp neu'n anodd eu gweld.

Golcha a glanha dy holl gyfarpar, esgidiau a dillad yn drylwyr. Os wyt ti'n dod ar draws unrhyw organebau, gadawa nhw yn y dŵr lle gwnest ti ddod o hyd iddyn nhw.

Sycha'r holl gyfarpar a dillad – fe all rhai rhywogaethau fyw am ddyddiau lawer mewn amodau tamp. Gwna'n siŵr nad wyt ti'n trosglwyddo dŵr i rywle arall.

I gael rhagor o wybodaeth dos i www.direct.gov.uk a chwilia am Drycha Golcha Sycha





Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency



Glandŵr
Cymru

The Canal & River Trust in Wales



Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Adnoddau defnyddiol:

Traphont Ddŵr Pontcysyllte a Safle Treftadaeth y Byd Camlas Llangollen

- goo.gl/J7gYLU, goo.gl/JZmXUR


Pontcysyllte Aqueduct & Canal gan Peter Wakelin,

Waterways & Wildlife: Managing our natural environment - Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (pdf ar gael yma: goo.gl/9PWZu3)

Lluniau: Delweddau o weithgareddau: Karl Midlane (clawr blaen, Yn y Dŵr, Yn y Clawdd, traphont ddŵr Pontcysyllte). Delweddau treftadaeth: Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd, bit.ly/2jq1RRY (map Paddle the Right Way), Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd cc, Pontcysyllte Aqueduct & Canal World Heritage Site gan Peter Wakelin (Pont Gledrid), Planciau stopio Coflein bit.ly/2hG17pb, Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd cc, Pontcysyllte Aqueduct & Canal World Heritage Site gan Peter Wakelin (Twnnel y Waun), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Hawlfraint y Goron (odynau calch a Phont Bryn-Howell), CC Amgueddfa Llangollen 2017 (Pont Pentrefelin), Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd cc, Pontcysyllte Aqueduct & Canal World Heritage Site gan Peter Wakelin (Rhaeadr y Bedol). Delweddau eraill: Lesley Wilson, bit.ly/2L319MO (iâr fach y dŵr) (wedi'i thocio), Peter Trimming, bit.ly/2ibq9fo, **** (llygoden y dŵr) (wedi'i thocio), Bernard Spragg, bit.ly/2AzsLKH, CC0 1.0 (cotiar), tonytowers, bit.ly/2g6OHDe, ***** (o chwith) (crêyr glas), Paul Asman a Jill Lenoble, bit.ly/2ADDFit, CC BY 2.0 (brithyll brown) (o chwith), northeastwildlife.co.uk, mayfly-00003 (cleren Mai), James West, bit.ly/2ADSKu0, ** (glas y dorlan) (o chwith), Quite Adept, bit.ly/2ABbHUo, ** (ar y glannau), David Whelan, bit.ly/2hF2Rxu (llafwrall), northeastwildlife.co.uk, common toad-00101 (llyffant), Paul Ritchie, bit.ly/2zBYKN4, ** (mursen) (wedi'i thocio), Amŷa Slater, bit.ly/2hVp3SR, **** (gold y gors), northeastwildlife.co.uk, grasshopper_warbler-00295 (telor y gwair), Hanna Knutsson, bit.ly/2icQcm8, ** (chwistlen), Dale Sutton, bit.ly/2zOpPdL (ystlum), Peter O'Connor, bit.ly/2zyWKp5, ***** (coeden afalau surion), Katy Wrathall, bit.ly/2mqOqm8, ** (collen), summonedbyfells, bit.ly/2jq1wPe, * (cerdded ci), hehaden, bit.ly/2zGGzUA, ** (mochyn daear), Björn Schulz, bit.ly/1XjcMZF CC-BY-SA-3.0 (pathewod), Simon Roberts, bit.ly/2ywibw, ** (rhosynnod gwyllt) (o chwith), bit.ly/2zyYkap, CC0 Parth Cyhoeddus (ysgawen), Nikk, bit.ly/2hwcy4T, CC BY 2.0 (gwenynen), Urban_Mongoose, bit.ly/2zEU5aZ, ** (llwynog), bit.ly/2zDaSOp, CC0 Parth Cyhoeddus (glöyn byw).

* pob un CC BY-NC 2.0 ** CC BY-NC-ND *** 2.0 CC BY 2.0 **** CC BY-SA 2.0

Canllaw maes i Gamlas Llangollen Yn dal dŵr • Yn ffitio cymorth arnofio



Mae iSee Camlesi Cymru - Camlas Llangollen wedi'i lunio gan Eryri-Bywiol/Snowdonia-Active trwy bartneriaeth â'r canlynol:

Glandŵr Cymru, ymddiriedolaeth elusennol a sefydlwyd i ofalu am dros 2,000 o ddyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr. Mae ei gwaith yn amry-wio o wella llwybrau halio i greu cynefi-noedd newydd i fywyd gwyllt a chynnal a chadw'r isadeiledd nodedig.

Asiantaeth Datblygu Gwledig yw **Cadwyn Clwyd**. Mae'n darparu arweiniad a chymorth i ddatblygu ac arallgyfeirio'r economi gwledig yn Gogledd Ddwyrain Cymru.

Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, porth golygfaol Gogledd Cymru.